**Ken Skates AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Cabinet Secretary for Transport and North Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf P-06-1335
Ein cyf KSNWT/10969/24

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

15 Ionawr 2025

Annwyl Carolyn,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Rhagfyr ynghylch Deiseb Mencap Cymru P-06-1335 - dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau bod oedolion bregus heb gardiau banc yn gallu talu gydag arian parod.

Rydym am i bawb allu defnyddio dull trafnidiaeth diogel, hygyrch a dibynadwy o'u dewis. Mae fy swyddogion wedi codi'r mater hwn gyda Trafnidiaeth Cymru (TrC) fel rhan o'u gwaith parhaus i wella profiad teithwyr ar drenau a bysiau, ac i gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol ar hygyrchedd a diogelwch.

Nid oes unrhyw gyfyngiadau mewn grym wrth brynu tocynnau gydag arian parod ar y mwyafrif helaeth o wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru. Gallaf gadarnhau, os oes angen i gwsmer brynu tocyn trên neu fws gydag arian parod, gallant ei brynu o'r swyddfa docynnau os oes un yn yr orsaf neu brynu tocyn ar y trên neu'r bws. Os yw cwsmer yn teithio o orsaf reilffordd sydd â pheiriant hunanwasanaeth yn unig, neu os yw'r swyddfa archebu ar gau, gallant ddefnyddio'r peiriant i gael taleb addewid i dalu y gellir ei gyfnewid am docyn arferol gan y casglwr tocynnau, neu yn ei gyrchfan. Fodd bynnag, rydym yn deall na all pawb ddefnyddio ein peiriannau hunanwasanaeth a bydd yr opsiwn i brynu tocyn ar y trên neu'r bws ar gael bob amser.

Rwy'n ymwybodol nad yw TrC yn derbyn arian parod ar gyfer trafodion arlwyo ar ei wasanaethau rheilffyrdd, fel llawer o Gwmnïau Trenau eraill. Gwnaed y penderfyniad hwn i ddechrau oherwydd pandemig Covid-19 a pharhaodd fel mesur diogelwch i staff arlwyo oedd yn cario arian parod, a'r gost sy'n gysylltiedig â thrin a bancio arian parod. Os bydd person ar daith hir ar y tren gyda TrC lle nad yw'r dull o dalu gyda cherdyn ar gael iddynt, bydd staff arlwyo TrC yn defnyddio eu disgresiwn i weini lluniaeth am ddim yn ôl yr angen.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er mwyn gwella profiad teithwyr ar drenau a bysiau, mae TrC yn rhedeg Panel Hygyrchedd a Chynhwysiant, ac mae'r aelodaeth yn cynnwys pobl anabl gydag ystod o amhariadau. Mae panel hygyrchedd Trafnidiaeth Cymru'n dylanwadu ar ei bolisïau hygyrchedd ac yn cynghori'r sefydliad ar sut i gefnogi cwsmeriaid anabl a hŷn i ddefnyddio ein gwasanaethau'n effeithiol. Mae'r panel yn cynghori Trafnidiaeth Cymru ar gynlluniau ar gyfer trenau a gorsafoedd newydd ac wedi'u hadnewyddu hefyd, yn ogystal â'i raglen hyfforddi staff. Mae TrC hefyd wedi gweithio i sicrhau bod eu dull gweithredu'n cyd-fynd â'u cynllun hyder i deithio, lle gall grwpiau lleol drefnu ymweliadau ymwybyddiaeth gan dîm Rheilffordd Gymunedol TrC i gael cymorth i brynu tocynnau. Mae rhagor o wybodaeth am fenter hyder i deithio TrC ar gael yma: Hyder i deithio | TrC

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu'r Tasglu Hawliau Anabledd hefyd i nodi'r problemau sy'n effeithio ar fywydau pobl anabl yng Nghymru a datblygu atebion sy'n dysgu o'u profiad byw, gan gynnwys sut i ddarparu cludiant cynhwysol a hygyrch: Tasglu Hawliau Pobl Anabl | LLYW.CYMRU.

Gobeithio fod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol.

Yn gywir,



**Ken Skates AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru